Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad diweddar ar newidiadau arfaethedig i shifftiau yn yr Uwch Adran Gofal Eilaidd, Uwch Adran Merched, Paediatreg ac Ysbytai Cymuned, gyda'r nod o safoni patrymau shifft a sicrhau cyfnodau egwyl priodol. Mae eich adborth wedi bod yn werthfawr iawn i benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni'r newidiadau oedd eu hangen. O ganlyniad, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau ac wedi cynnwys nifer o fesurau i sicrhau bod effaith y newidiadau hyn yn bositif, ac yn adlewyrchu anghenion gwahanol ein gwasanaethau ac unigolion.

Penderfynwyd symud ymlaen i roi'r newid ar waith ym mis Ionawr 2020 i roi digon o amser i roi rhai o'r mesurau hyn ar waith, i brofi'r broses adrodd ar eithriadau a rhoi amser i gael sgyrsiau unigol gyda'ch rheolwyr os oes angen. Mae hyn hefyd yn rhoi amser i'n timau adeiladu'r rhestrau ar sail 12 wythnos. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan rai cydweithwyr fydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn a byddwn yn parhau i weithio gyda grwpiau staff ac undebau llafur i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn llyfn.

Mae'r ymateb llawn i'r Ymgynghoriad a'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ynghlwm a byddant yn cael eu cyhoeddi ar y wefan yn nes ymlaen heddiw. Hefyd, er mwyn eglurder llwyr, bydd adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hefyd ar gael ar y wefan.

Gill Harris
Dirprwy Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth

Sue Green
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol